

Dysgu, addysgu ac asesu sgiliau cyfathrebu gyda phlant a phobol ifainc mewn addysg gwaith cymdeithasol



Dysgu, addysgu ac asesu sgiliau cyfathrebu gyda phlant a phobol ifainc mewn addysg gwaith cymdeithasol

Rhagarweiniad

Comisiynwyd yr adolygiad gwybodaeth hwn ar ddysgu, addysgu ac asesu sgiliau cyfathrebu gyda phlant mewn addysg gwaith cymdeithasol gan y Sefydliad er Rhagoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol (SCIE).

Sefydlu'r radd mewn gwaith cymdeithasol sy'n rhoi cyd-destun i'r adolygiad hwn, ac mae'n ymateb hefyd i'r cyhoeddiad gan yr Adran Iechyd yn 2002, *Requirements for social work training* ac *Every child matters: Change for children*, a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau yn 2004.

Mae anghenion tebyg ar waith yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi datblygiadau mewn gwasanaethau plant.

Pwrpas yr adolygiad

- Tynnu sylw at y prif ganfyddiadau ynghylch dysgu, addysgu ac asesu sgiliau cyfathrebu gyda phlant mewn addysg gwaith cymdeithasol
- Galluogi addysgwyr ym maes gwaith cymdeithasol i ddefnyddio'r agweddau hyn wrth gynllunio a darparu rhaglenni gwaith cymdeithasol

Methodoleg

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar ddau brif gwestiwn:

- Sut mae addysg gwaith cymdeithasol yn dehongli, dysgu ac asesu sgiliau cyfathrebu gyda phlant?
- Sut mae gwaith cymdeithasol yn ymarferol yn dehongli, dysgu, asesu sgiliau cyfathrebu gyda phlant, a sut mae'n defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael?

Mae'r trydydd cwestion yn ein galluogi i gymharu:

- Sut mae cyrff proffesiynol y maes yn dehongli ac ymarfer sgiliau cyfathrebu gyda phlant?

Ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth, dangosodd ymchwil ar fasus data electronig mai prin yw'r llenyddiaeth yn y maes hwn. Lledaenwyd yr

ymchwil i gynnwys ffynonellau oedd yn crybwyll dulliau cyfathrebu effeithiol ar lawr gwlad, yn ogystal ag wrth addysgu. Cafwyd 27, 539 enghraifft. Dim ond enghreifftiau o gyfathrebu uniongyrchol rhwng gweithwyr cymdeithasol a phlant mewn addysg neu ymarfer a gofnodwyd. Cynhwyswyd hefyd eu hymchwil empirig gwreiddiol.

Ar gyfer yr adolygiad ar ymarfer ar lawr gwlad, roedd 73 o sefydliadau addysg uwch (HEIs) yn darparu addysg gwaith cymdeithasol yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon adeg yr ymchwil, sef Haf 2005. Archwiliwyd rhai o'r rhain, yn dibynnu ar bwy oedd ar gael i'w holi a phwy a ymatebodd. Defnyddiwyd gwybodaeth o safleodd gwe, llawlyfrau cwrs, holiaduron dros y ffon ac fe ymwelwyd gyda rhai canolfannau.

Canfyddiadau

Y prif ganfyddiad yn nhermau'r adolygiad ar lenyddiaeth ac ar ymarfer oedd nad yw sgiliau cyfathrebu gyda phlant yn faes penodol o fewn ymchwil ac addysg gwaith cymdeithasol. Nid oes dealltwriaeth gyffredin ynghylch cyfathrebu medrus, nag am sut dylid ei addysgu. Prin oedd yr enghreifftiau o ymarfer effeithiol a welwyd.

Mae hon yn hen broblem - sut i ddysgu sgiliau penodol, arbenigol, mewn cyrsiau cyffredinol sy'n paratoi myfyrwyr at weithio yn y maes. Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn adlewyrchu'r

broblem hon. Does dim disgwyliad ar i bob myfyriwr sy'n derbyn hyfforddiant cyffredinol ddatblgyu sgiliau cyfathrebu da gyda phlant, a does dim dealltwriaeth nac eglurdeb ar amrediad na lefel y sgiliau sydd eu hangen. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod pob gweithiwr cymdeithasol, yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gydag oedolion, yn mynd i siarad yn uniongychol gyda phlant ar adegau – ac y dylid holi eu barn (gweler www.scie.org.uk/publications/resourceguides/rg01.pdf).

Dyw sgiliau cyfathrebu gyda phlant ddim yn cael eu dysgu fel pwnc penodol o fewn y radd gwaith cymdeithasol, yn yr elfennau dosbarth nac ar leoliad. Yn aml, cyfathrebu gydag oedolion sy'n cael y flaenoriaeth yn y dosbarth a rheoli ac asesu risg yw'r flaenoriaeth ar leoliad. Does dim gwarant y bydd myfyrwyr wedi dysgu am gyfathrebu gyda phlant, na chael eu hasesu, hyd yn oed pan fydd eu gwaith lleoliad wedi bod mewn gwasanaethau plant.

Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o staff academiaidd yn rhannu'r gwaith o addysgu yn y maes hwn, sy'n llesteirio yn bellach ddatblygiad y pwnc.

Mae mewnbwn gan blant a phobol ifainc i addysg myfyrwyr yn cyd-fynd yn llwyr gyda gwerthoedd gwaelodol hyfforddiant mewn gwaith cymdeithasol. Ac er bod plant yn chwarae than yn yr hyfforddiant hwn – trefniant llac ydyw, yn

hytrach na strategol. Mae rhai aelodau o staff academiaidd yn ansicr ynghylch pa mor effeithiol ac addas y mae cynnwys plant fel hyn.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth hefyd yn dangos bod gwahanol farn ar natur plentyndod, gwahanol farnau sy'n dal i gfwlwyno problemau ym maes ymchwil ac addysg gwaith cymdeithasol. Mae hyn yn effeithio ar y dulliau sy'n cael eu defnyddio wrth weithio gyda phlant. Ar un llaw, mae plant yn cael eu hystyried yn abl i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Ar y llaw arall, maent yn cael eu hystyried yn fregus ac angen eu hamddiffyn. Mae angen i fyfyrwyr gael y cyfle i ddeall a meddwl am y gwahaniaethau hyn.

Law yn llaw gyda hyn, mae hefyd gwahanol farnau am yr hyn sy'n addas wrth addysgu plant. Mae rhai cyrsiau yn canolbwyntio ar natur therapiwtig cyfathrebu drwy ddatblygu gallu'r myfyrwyr i gyfathrebu yn effeithiol – a thrwy hynny, ennyn ymddiriedaeth, empathi a'r gallu i roi'r plentyn wrth wraidd pob sefyllfa. Datblygir hefyd y gallu i ymateb i gyfathrebu anuniongyrchol, heb eiriau weithiau.

Mae eraill yn canolbwyntio ar ddatblygu sgilliau technegol – y gallu i drosglwyddo gwybodaeth, er enghraifft – ac i wrando a defnyddio technegau creadigol, heb ddibynnu o hyd ar siarad. Mae rhai addysgwyr yn credu y cyfoethogir cyfathrebu

drwy alluogi plant i gyfrannu yn uniongyrchol drwy eu hymbweru. Mae tystiolaeth fod pob un o'r agweddau uchod yn bwysig a bod datblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i gadarnhau sgiliau technegol a thechnegau ymbweru.

Mae'r ymchwil ar addysg broffesiynol partneriaid, er enghraifft athrawon, paediatryddion, nyrsus a therapyddion galwedigaethol, yn dangos amrywiaeth helaeth iawn o agweddau tuag at addysgu ac asesu sgiliau cyfathrebu gyda phlant, ac enghreifftau o ymarfer arloesol a allai gael eu defnyddio mewn addysg gwaith cymdeithasol.

Cyhoeddiadau eraill sydd ar gael gan SCIE

LEARNING AND TEACHING IN SOCIAL WORK EDUCATION: TEXTBOOKS AND FRAMEWORKS ON ASSESSMENT

Beth R. Crisp, Mark R. Anderson, Joan Orme

a Pam Green Lister

ISBN 1 904812 21 x

Ebrill 2005

Cod archebu: KR09

THE LEARNING, TEACHING AND ASSESSMENT OF PARTNERSHIP IN SOCIAL WORK EDUCATION

Imogen Taylor, Elaine Sharland, Judy Sebba

a Pat Leriche with Elaine keep and David Orr

ISBN 1 904812 34 1

Mehefin 2006

Cod archebu: KR10

Ewch i www.scie.org.uk i gael holl gyhoeddiadau SCIE

Dysgu, addysgu ac asesu sgiliau cyfathrebu gyda phlant a phobol ifainc mewn addysg gwaith cymdeithasol: Crynodeb

Mae'r adolygiad gwybodaeth cyflawn ar gael gan SCIE neu ar ein safle gwe.

Mae holl gynyrchiadau SCIE ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformat gwahanol ar gais.

Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er
Rhagoriaeth/Social Care Institute for
Excellence

Goldings House, 2 Hay's Lane

London SE1 2HB

ffôn 020 7089 6840

ffacs 020 7089 6841

ffôn testun 020 7089 6893

www.scie.org.uk